

BARKER (TEULU), Pontypwl a Bath, arlunwyr

BENJAMIN BARKER (bu farw 1774?), paentiwr mewn enamel yng ngwaith 'japan' Pontypwl

Yn ôl cofrestr eglwys Trevethin (yn cael ei dyfynnu gan [Syr Joseph A. Bradney](#)) talwyd iddo chwe gini am baentio peisarfau'r brenin. Y mae engrifftiau o'i waith ar 'japan' yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Daeth dau o'i feibion - THOMAS BARKER, Bath, a BENJAMIN BARKER II - yn arlunwyr pur enwog; yr oedd ei wyrion THOMAS JONES BARKER a JOHN JONES BARKER, meibion ei fab Thomas Barker, Bath, yn baentwyr hefyd.

THOMAS BARKER (1769 - 1847), arlunydd

Mab Benjamin Barker, Pontypwl; ganwyd yn Trosnant, Pontypwl, yn 1769. Dangosodd dalent arlunydd yn gynnar yn ei oes, ac ymsefydlodd yn Sion Hill House, Bath, lle y daeth yn boblogaidd. Aeth i Rufain yn 1790 ac aros yno dair blynedd. Ceir engrifftiau o'i waith, 'Woodman and his dog in a storm 'a' Landscape' yn y National Gallery, Llundain. Bu'n dangos ei waith yn y Royal Academy - yr oedd yn R.A. - ac mewn orielau eraill yn Llundain. Bu farw 11 Rhagfyr 1847.

Brawd iddo oedd

BENJAMIN BARKER II (1776 - 1838), arlunydd

Mab Benjamin Barker I. Ganwyd yn Pontypwl. Ymlysg ei weithiau y mae 'Brecon Town and Bridge' a 'Road leading to Pont Aberglaslyn.' Cyhoeddwyd 48 o'i weithiau wedi eu hysgythru gan Thales Fielding mewn aquatint. Bu'n dangos ei waith yn y Royal Academy ac orielau eraill yn Llundain. Bu farw 2 Mawrth 1838 yn Totnes.

Mab i Thomas Barker 'o Bath ' oedd

THOMAS JONES BARKER (1815 - 1882), arlunydd

(yr oedd ei fam yn Jones, o sir Fynwy). Yn 19 oed aeth i stiwdio Horace Vernet, Paris; bu'n cydweithio â'r arlunydd hnwnw'n ddiweddarach ar amryw ddarluniau. Dyma rai o'i weithiau - darluniau o Benjamin Disraeli, y Cadfridog Nelson, 'General Williams and staff leaving Kass,' 'Napoleon at Bassano' (yn Manchester), 'Lord Clyde's relief of Lucknow' (yn Glasgow), 'The intellect and valour of Great Britain' (yn y British Museum), 'The Allied Generals before Sebastopol.' Bu'n arddangos yn y Royal Academy ac orielau eraill. Bu farw 27 Mawrth 1882.

Awdur

Y Parchedig Thomas Mardy Rees, (1871 - 1953)

Ffynonellau

Michael Bryan, *Bryan's dictionary of painters and engravers*

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527–1911* (1912)

Oxford Dictionary of National Biography

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732642](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government